

Geiriau Ffilm Rhianta 4 - Chwarae

Mae'r fideo hon yn sôn ychydig am chwarae mewn plentyndod a sylwadau disgrifiadol.

Mae rhai pobl yn dweud nad yw hyn yn gallu rheoli ymddygiad. Ond mae'n strategaeth rheoli ymddygiad ac yn strategaeth meithrin perthynas. Mae'n sylfaen i'r pyramid. Felly mae chwarae yn y canol yn fan hyn ac mae chwarae yn rhoi cyfleoedd i blentyn siarad, gwrando, a datrys problemau. Mae'n ymwneud â sylw ac ymgysylltiad ac empathi fel y soniais amdany'n nhw ddoe.

Felly mi soniaf i fwy am chwarae a sut i chwarae. Mae'r sgiliau hynny yn caniatáu'r plentyn i feithrin eu dealltwriaeth emosiynol cymdeithasol ac academaidd ac fel y dywedais o'r blaen; rydw i'n gwybod fy mod i'n ailadrodd fy hun ond alla' i ddim pwysleisio digon, os oes gan blant ddeallusrwydd cymdeithasol emosiynol ac academaidd, mae unrhyw beth yn bosibl iddyn nhw. Ac mae gennych berthynas bositif gyda'ch plant. Gallan nhw ymddwyn yn dda. Gallan nhw fod yn uchelgeisiol. Gallan nhw wneud camgymeriadau. Gallan nhw fethu ond mae'n iawn methu oherwydd bydd ganddynt y dealltwriaeth cymdeithasol, emosiynol ac academaidd i weithio trwy'r methiant hwnnw.

Felly mae chwarae yn rhywbeth pwysig iawn i sôn amdano ac nid yw'n cymryd gormod o ymdrech. Mewn un ffordd mae'n syml ac yn gymhleth ond gadewch i mi roi enghraifft i chi. Os oes gennyf ddau funud i chwarae gyda fy mhlentyn, chwarae dan arweiniad y plentyn yw'r peth pwysig; hynny yw, gadael i'r plentyn gymryd yr awenau.

Felly mae fy mhlentyn yn dweud, "Mam, Mam, rydw i eisiau chwarae gyda'r cylchoedd yma", ac mae'n cymryd y cylch coch ac yn ei roi ar ei ben. Cyn gwneud y Blynyddoedd Rhyfeddol byddwn i wedi dweud, "Na mae'n rhaid i ti roi'r un coch ar ben y ffon", ond byddai'r plentyn yn ei roi ar ei ben. Yn lle dweud hynny, byddwn i'n dweud "O, rwy'ti wedi rhoi'r bêl goch ar dy ben. Dyna wych wyt ti". Felly byddai'r therapyddion iaith a lleferydd mor falch ohonof i oherwydd fy mod wedi dysgu'r plentyn sut i "roi rhywbeth ar" a'r deallusrwydd academaidd yw "rhoi'r cylch coch ar dy ben". Mewn ychydig eiliadau mae'r plentyn wedi dysgu'r lliw coch. Mae hefyd wedi dysgu'r ymadrodd "rhoi ar" ac rydw i hefyd wedi canmol a dilysu'r plentyn. Ond mae'r plentyn mor falch bod Mam yn edrych arnaf i a gweld beth ydw i'n ei wneud? Rydych chi'n meithrin hunan-barch ac hunan-werth y plentyn hefyd.

Ac yna fel arfer rydw i'n dweud wrthyn nhw am basio'r bêl i mi ac maen nhw'n pasio'r bêl i mi ac rydw i'n dweud "O, waw" Rwy'ti'n blentyn mor garedig. Rwy'ti'n rhannu". Felly rydw i'n meithrin ddeallusrwydd cymdeithasol y plentyn; "O, rwy'ti'n fachgen mor garedig yn rhoi'r bêl goch i mi. Ti ydy'r gorau, y gorau un". Mae hynny'n meithrin hunan-barch a hunan-werth y plentyn a'i emosiynau. Felly mae'n gwneud iddo deimlo'n hapus. Byddwn i'n dweud, "Rwy'ti'n hapus iawn yn chwarae gyda'r cylch yna".

Y peth arall yr hoffwn ei ddweud. Cyn gwneud Rhaglen y Blynyddoedd Rhyfeddol, roeddwn i fel plentyn fy hun mewn gwirionedd. Roeddwn i'n arfer chwarae gyda fy

mhlentyn ond mi fyddwn i'n cael y brics allan ac yn dechrau adeiladu campwaith i'w ddangos i'r plentyn. Felly sut fyddai fy mab 3 oed yn teimlo...? Wel sut ydych chi'n meddwl y byddai'n teimlo ar ôl i mi adeiladu garej anhygoel gyda'r brics? Byddai'n teimlo'n fflat. Roedd o'n teimlo'n fflat. Doedd o ddim eisiau chwarae gyda mi mwyach oherwydd, yn blentyn tair oed, alla i o byth adeiladau garej mor anhygoel. Felly mae gadael i'r plentyn arwain y chwarae yn allweddol – gallwch chi fynd yn ôl i adeiladu'ch garej wedyn os ydych yn dymuno.

Mae'n bwysig felly gadael i'r plentyn arwain y chwarae ac yna ychwanegu sylwadau disgrifiadol at hynny. Mae sylwadau disgrifiadol yn golygu ceisio osgoi holi cwestiynau. Pe bawn i'n eistedd yma a gofyn i chi, beth ydych chi'n ei wneud heddiw? Yn tydy ynysu cymdeithasol yn erchyll? Beth ydych chi'n ei wneud gyda'ch amser? Ble aethoch chi? Beth wnaethoch chi? Sut fyddech chi'n teimlo? Byddech yn teimlo fel pe baech yn cael eich holi'n dwll; mi fyddai'n well gennych chi siarad gyda'r dyn ar y lleud na fi. Mae hynny'n wir am ein plant hefyd felly mae'n rhaid i ni osgoi gofyn cwestiynau.

I ddechrau, disgrifiwch beth maen nhw'n ei wneud. "Dwi'n gweld dy fod yn rhoi'r bêl goch ar ben y ffon. Rwyt ti'n cymryd y cylch gwyrdd allan; rwyt ti'n cymryd y cylch gwyrdd mawr allan". Disgrifiwch beth ydych yn gallu ei weld. Mewn un ffordd fel y dywedais mae'n gysyniad syml iawn ac mewn ffordd arall mae'n gymhleth. Gyda chwarae plant mae'n rhaid mynd lawr i'w lefel nhw a chael cyswllt llygad da.

Gyda phlant ag anghenion arbennig a phlant ar y sbectrwm mae'n golygu mynd i mewn i'w sbotolau nhw a thiwnio i mewn iddyn nhw hefyd.

Dyna ddiwedd ar fy sgwrs fach i am chwarae mewn plentyndod a sylwadau disgrifiadol – strategaethau gwych y Blynyddoedd Rhyfeddol.

Diolch yn fawr iawn.